Cofnodion Cyngor dros Zoom nos Fawrth Medi 15 2021 am 7pm
Presennol: M.Chapman, L.Roberts, E.R.Noble, C.Brewer, T.W.Jones,C.L.Price, M.L.Hughes, M.Skerret.
Cofnodion: Cadarnhawyd cofnodion 27.5.21, cynnig C.Brewer, cefnogi T.W.Jones.

Heddlu. Deallwyd fod yr Heddlu yn parhau i alw yn y pentref yn rheolaidd.

Yr A470. Ailwynebu'r ffordd wedi'i gwblhau er fod gwaith ar sawl tro eto i gael sylw. L.Roberts wedi gofyn am gael clirio a thorri'r gwrychoedd hyd y llwybrau ar ochr yr A470. Roedd hi wedi gofyn am gael cyfarfod gyda I.Tegid i drafod ceir yn gyrru yn yr ardal a'r prosiect 20mya, roedd ef wedi dweud fod arolwg cyflymdra i'w gynnal yn yr ardal yn 2022/23 a bod y prosiect 20mya yn digwydd ond ei bod yn rhy fuan i ddweud os bydd hyn yn effeithio Dolwyddelan.

Cyngor Sir. L.Roberts wedi gofyn am gyfarfod gyda K.Jones yn y pentref yn dilyn gwaith diweddar S.Power; Kevin yn trefnu cyfarfod gyda Ifan Jones o Dŵr Cymru i drafod cynnal Ffordd Tŷ Isaf; mae hi'n aros am ddyddiad cyfarfod gyda CBSC a NMWTRA ynglŷn â gosod 'lanterni' newydd ar y polion trydan hyd yr A470; CBSC yn mynd i dynnu'r goleuadau Nadolig oddiar y polion tra bod y gwaith yn cymryd lle.

Llwybrau. Cyfarfod i'w drefnu yn fuan, mae'n amlwg fod sawl un yn cefnogi'r Cyngor Cymuned ac yn cyfeirio at broblemau ar lwybrau; mae camfeydd i hwyluso cŵn wedi'i gosod yn yr ardal gan Ioan Davies Warden y Parc. Allt Cyfyng angen sylw.

Yr Orsaf. Ceir yn parhau i gael eu gadael yno dros nos.

Pontydd yn yr Ardal. Cyfarfod ar y safle dydd Gwener Medi 17 am 10:30am. G.Parry yn trefnu ymweliad safle ym mis Hydref i drafod Pontydd Hendre a Pont y Pant, roedd gwaith ar Bont Hendre i fod i ddigwydd yr Haf hwn ond oherwydd prinder contractwyr ni chafwyd cais am y gwaith.

Cydnabyddiaeth Aelodau. Ni chafwyd yr un cais felly y Clerc wedi cadarnhau na wnaed taliad

Cynlluniau.
Llys y Gwynt: Dim i'w adrodd.
9 Castle Terrace: Dim i'w adrodd.
Aber: Cafwyd 2 sylw, Clerc wedi ei hanfon ymlaen i Swyddfa'r Parc.

Llifogydd. Dywedodd L.Roberts fod CBSC wedi cadarnhau fod cyllid ar gael a'u bod yn gobeithio mynd allan i dender ym mis Tachwedd ar gyfer gwaith yn 2022.

Scottish Power. Liz Roberts yn parhau i aros am ddyddiad cwblhau'r gwaith.

NRW. Y cais cynllunio wedi'i gwblhau a bydd yn cael ei anfon i'r Parc.

Terfyn gyrru 20mya. W.Roberts CBSC wedi ymddeol, Clerc i gysylltu â Dylan Jones. Sylw gan M.L.Hughes - ceir yn gyrru trwy'r ardal yn fuan yn y bore, Clerc i gysylltu a I.Tegid i nodi hyn.

Toiledau. Y toiledau ar agor ond yn dal yng ngofal CBSC gan fod llawer o faterion i'w cwblhau yn foddhaol, mae S.Teale yn ymwybodol ohonynt. Heath Mattic y cwmni drysau yn brysur drwy'r wlad ac o bosibl yn methu dal fyny gyda'r gwaith.

Y Gofgolofn. Diolchodd y Cadeirydd E.R.Noble i C.Brewer am ei gwaith yn arwain gyda'r trefniadau ar gyfer y gwaith yn y Gofgolofn, yr ardal eisoes yn edrych yn dda iawn. Mae'r gwaith yn cymryd lle rhan wrth rhan - disgwylir y bydd y coed newydd yn cyrraedd at ddiwedd Medi, hefyd bydd bylbiau blodau yn cael eu plannu yn y tir. Cytunwyd i ofyn i B.Atkins drefnu i atgyweirio'r paneli gyda M.Skerrett yn cynnig a M.Chapman yn cefnogi a pawb o blaid. Hefyd cytunwyd yn unfrydol i ofyn i Iwan Tŷ Llwyd i atgyweirio'r ffens 'haearn cast'. Cysylltu eto gyda Euros Williams i ofyn iddo roi sylw i'r wal fechan sy'n ffinio tir y Ddôl a wal y Gofgolofn.

Y Fynwent. Cytunwyd y dylai'r is bwyllgor a'r Clerc gyfarfod yn y Fynwent i weld pa waith sydd ei angen yno dydd Sadwrn Medi 25 am 10am, awgrymodd y Clerc y buasai'n dda o beth petae'r Cadeirydd a'r Is Gadeirydd ym mynychu'r is bwyllgorau hefyd os gallant.

Ariannol. Rhoes y Clerc adroddiad am y sefyllfa bresennol i'r Aelodau a chytunwyd ar y biliau i'w talu, cynnig M.Skerrett, cefnogi M.Chapman a pawb o blaid. Cynigodd M.L.Hughes gyda L.Roberts yn cefnogi a phawb o blaid, y dylid cyflwyno cyfraniad ariannol i Zac Tatam gan nad oedd wedi gallu cychwyn ar ei waith yn y toiledau.

Dosbarthu'r Post. Roedd sawl un wedi cwyno am nad oedd y post yn cael ei ddosbarth yn ddyddiol yn yr ardal, cadarnhaodd L.Roberts fod yr un broblem mewn sawl ardal a bod I.Jenkins yn edrych i mewn i hyn, Clerc i gysylltu ag ef.

Bandeang/Zoom. Cafwyd trafodaeth am y sefyllfa gyda'r bandeang a deallwyd ei bod yn debygol y bydd hyn yn broblem am beth amser. Holwyd tybed beth oedd y sefyllfa gyda cael cyfarfod yn y Ganolfan unwaith yn rhagor, cadarnhaodd y Clerc ei fod wedi cysylltu â Mrs Artell a'i bod wedi cadarnhau nad yw'n bosibl defnyddio'r Ganolfan ar hyn o bryd. Clerc i gysylltu â B.Valintine i holi os oes modd defnyddio'r Pafiliwn.

Drych ar y Bont. Cadarnhaodd T.W.Jones fod y gwydyr yn y drych wedi torri eto, Clerc i gysylltu.

Coeden Nadolig. M.L.Hughes yn cadarnhau fod y bocs yn cysylltu'r trydan i'r goeden angen sylw, Clerc i drefnu.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Nos Iau Hydref 7 am 7pm dros Zoom neu yn y Pafiliwn.

**SWYDDOGION 2021 / 2022**

Cadeirydd: Enwebwyd E.R.Noble yn unfrydol
Is Gadeirydd: Cynigodd L.Roberts enw T.W.Jones, C.L.Price yn cefnogi, pawb yn cytuno, ni chafwyd cynigiad arall, derbyniodd Teleri y swydd. Diolchwyd yn gynnes i'r Cyn Gadeirydd M.Chapman am ei gwaith ar adeg anodd iawn.
Cadeirydd: E.R.Noble   Is Gadeirydd: T.W.Jones
Y Fynwent  C.L.Price C.Brewer M L Hughes L.Roberts
Mandle Terrace  E R Noble T W Jones
Rheolwyr yr Ysgol  Teleri Jones   Y Ganolfan Gymdeithasol  M Chapman
Toiledau: M.Skerrett, M.Chapman, E.R.Noble, Liz Roberts
Llwybrau: M.Chapman L.Roberts C.L.Price
Clerc/Swyddog Ariannol  G Roberts